# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 17 Ionawr 2025 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 20 Ionawr 2025 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 27 Ionawr 2025 |

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**

Y Cynghorydd Y Cyng. R. Medwyn Hughes, Aelod Cabinet Economi a Chymuned

**PWNC**: Ymateb Cyngor Gwynedd i ymgynghoriad Pwyllgor Cyllid Senedd Cymru ar y Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru)

**PENDERFYNIAD –**
Cyflwyno ymateb fel a luniwyd yn Atodiad 1 i Bwyllgor Cyllid Senedd Cymru i'w ymgynghoriad ar y Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru).

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD –**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**


Dim

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| **Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet :** | Y Cyng. R. Medwyn Hughes<br>Aelod Cabinet Economi a Chymuned |
| **Enw a theitl Awdur yr Adroddiad :** | Roland Evans<br>Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned |
| **Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad:** | 17 Ionawr 2025 |
| **Llofnod yr Aelod/au Cabinet :** |  |

**Pwnc :** Ymateb Cyngor Gwynedd i ymgynghoriad Pwyllgor Cyllid Senedd Cymru ar y Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru)

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :**

Cyflwyno ymateb fel a luniwyd yn Atodiad 1 i Bwyllgor Cyllid Senedd Cymru i'w ymgynghoriad ar y Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru).

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :**

Mae Pwyllgor Cyllid Senedd Cymru yn cynnal ymgynghoriad ar y Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) fel rhan o'r broses o graffu'r Bil ar ei hynt drwy'r Senedd.

Cyhoeddwyd y Bil ar 25 Tachwedd 2024 ac mae'r Pwyllgor Cyllid wedi gofyn am ymatebion i'w ymgynghoriad erbyn 10 Ionawr 2025.

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :**

Mae'r Bil y gosod allan rheoliadau ar gyfer cyflwyno deddfwriaeth newydd i gofrestru llety gwyliau yng Nghymru yn ogystal â chyflwyno deddfwriaeth fydd yn galluogi awdurdodau lleol unigol i ymgynghori ar a chyflwyno ardoll twristiaeth yn eu hardaloedd unigol.

Mae'r Bil yn awr yn cychwyn ar ei daith drwy'r drefn seneddol ac mae cyfle i ymateb iddo trwy ymgynghoriadau penodol gan Bwyllgorau o'r Senedd.

Bydd adroddiad ar yr egwyddor o gyflwyno Ardoll yng Ngwynedd yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn y dyfodol.

Mae'r egwyddor o sefydlu Treth Twristiaeth a threfn gofrestru llety gwyliau wedi ei drafod mewn nifer o gyfarfodydd o'r Cabinet yn y gorffennol gan gynnwys:

| Dyddiad | Adroddiad | Penderfyniad |
|---|---|---|
| 28-03-23 | Papur ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar sefydlu trefn gofrestru statudol. | Cefnogaeth i ymateb Cyngor Gwynedd i ymgynghoriad Croeso Cymru ar sefydlu cynllun trwyddedu statudol yng Nghymru ar gyfer llety gwyliau. |
| 15-12-2020 | Gwaith ymchwil Tai Gwyliau | b) Er mwyn cynorthwyo i gadw rheolaeth dylid hefyd galw am gyflwyno<br>cynllun trwyddedu gorfodol ar gyfer llety gwyliau tymor byr fyddai'n<br>gyfrifoldeb i'r awdurdod lleol ei weithredu |
| 13-03-2018 | Pwerau Trethiant Llywodraeth Cymru | Treth ar Dwristiaeth<br>Mynegwyd cefnogaeth i'r dreth, gan bwysleisio ei fod i'w weld fel treth lleol dramor ar hyn o bryd. Ychwanegwyd nad yw'n dreth uchel iawn ond y byddai angen i fusnesau weld manteision lleol o wneud hyn.<br>O ran y cynigion, nodwyd fod cefnogaeth iddynt i gyd, ond fod angen mwy o wybodaeth a dylid pwysleisio'r agwedd o dreth lleol. Bydd ymateb yn cael ei greu ar sail y drafodaeth. |

Mae'r adroddiadau a'r trafodaethau hyn oll wedi croesawu'r egwyddor o sefydlu trefn gofrestru ffurfiol ar gyfer llety gwyliau yng Nghymru – gydag adnoddau digonol i reoli a gweinyddu hynny.

Roedd sefydlu trefn drwyddedu yn un o brif argymhellion y gwaith ymchwil tai gwyliau a'r peilot a gynhaliwyd yn ardal Dwyfor.

Mae'r egwyddor o weithredu ardoll ymwelwyr wedi ei gefnogi gan Cyngor Gwynedd dros nifer o flynyddoedd.

**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau :**

Dim

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :**

**Prif Swyddog Cyllid**

*Rwyf yn fodlon fod yr ymateb drafft i'r ymgynghoriad sy'n ymddangos yn yr atodiad yn adlewyrchiad teg o drafodaethau blaenorol ynglŷn ag ardoll ymwelwyr a chynllun trwyddedu. Er fod posibilrwydd o incwm ychwanegol sylweddol i'r Cyngor petai'r ardoll ymwelwyr yn cael ei fabwysiadu rhaid pwyso a mesur hynny yn erbyn cost cyflwyno'r cynllun, a'r effaith o bosib ar y diwydiant ymwelwyr yn lleol. Fodd bynnag, nid yw'r penderfyniad a geisir ar y daflen yma yn ymrwymo'r Cyngor i wariant ychwanegol.*

**Swyddog Monitro**

*Mae'r Cabinet eisoes wedi datgan ei gefnogaeth i'r egwyddor o osod ardoll ymwelwyr. Mae'r ymateb yma yn ymhelaethu ar y materion yma. Mater i'r Senedd fydd ffurf terfynol y ddeddfwriaeth ac mae'r sylwadau yn ymateb priodol i'r ymgynghoriad.*

**Aelod/au Lleol**

Dim yn berthnasol

**Atodiad 1**

## Ymateb Cyngor Gwynedd i ymgynghoriad Pwyllgor Cyllid Senedd Cymru ar Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru)

1. **Beth yw eich barn am egwyddorion cyffredinol y Bil a'r angen am ddeddfwriaeth i gyflawni'r amcan polisi a nodwyd gan Lywodraeth Cymru?**

Mewn egwyddor mae Cyngor Gwynedd yn croesawu'r bil drafft a'r angen am ddeddfwriaeth yn y maes hwn. Mae'r Cyngor wedi nodi ei gefnogaeth i'r egwyddor o gyflwyno'r math yma o bolisi a deddfwriaeth ers 2018.

Mae twristiaeth a'r economi ymweld yn ddiwydiant a chyflogwr pwysig yng Ngwynedd ac yn cyfrannu'n sylweddol i'r economi leol. Wedi dweud hynny, mae'r pwysau ar gymunedau a gwasanaethau lleol yn sgil twristiaeth hefyd yn fater sy'n derbyn sylw cyson wrth ymgynghori gyda'n cymunedau.

Ers 2018 mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn adolygu'r maes economi ymweld a bellach mae gennym gynllun economi ymweld cynaliadwy wedi ei ddatblygu mewn partneriaeth gyda Pharc Cenedlaethol Eryri a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy sef Cynllun Gwynedd ac Eryri 2035.

Mae rhai meysydd o eglurder eu hangen:

- a. Pa gefnogaeth fydd Awdurdod Cyllid Cymru yn disgwyl ei gael gan Awdurdodau Lleol wrth gofrestru, monitro a gorfodi'r drefn gofrestru?
- b. Pa gefnogaeth fydd Awdurdod Cyllid Cymru yn disgwyl ei gael gan Awdurdodau Lleol wrth fonitro a gorfodi'r Ardoll?
- c. Beth yw'r bwriad a'r amserlen o ran sefydlu trefn drwyddedu ar gyfer llety gwyliau? Beth fydd y goblygiadau ar Gyngor Gwynedd o unrhyw drefn drwyddedu?
- d. Adnoddau: Yn ogystal â chostau ymgynghori ac adrodd blynyddol ar y defnydd o'r Ardoll, mae Cyngor Gwynedd yn amlygu y bydd costau nad ydynt wedi eu cynnwys yn y Memorandwm Esboniadol o ran:
  - a. Gweinyddu cronfeydd a ddaw i'r Ardal yn sgil unrhyw Ardoll;
  - b. Costau gweinyddu unrhyw bartneriaeth fydd yn gyfrifol am argymell blaenoriaethau i gyllido prosiectau i gefnogi'r economi ymweld yn yr ardal;
  - c. Costau cyfathrebu a marchnata'r buddion a'r buddsoddiadau fydd yn cael eu gwneud yn yr ardal yn sgil yr Ardoll.
- e. Mae Cyngor Gwynedd yn galw ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd i ystyried os yw'n briodol codi ardoll ymweld ar blant a phobl ifanc o dan 16 oed.

2. **A oes unrhyw rwystrau posibl i weithredu darpariaethau'r Bil? Os felly, beth yw'r rhain ac a yw'r Bil a'r Memorandwm Esboniadol ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n cyd-fynd ag ef yn rhoi ystyriaeth ddigonol iddynt?**

Mae rhai meysydd o eglurder eu hangen:

- a. Pa gefnogaeth fydd Awdurdod Cyllid Cymru yn disgwyl ei gael gan Awdurdodau Lleol wrth gofrestru, monitro a gorfodi'r drefn gofrestru?

b. Pa gefnogaeth fydd Awdurdod Cyllid Cymru yn disgwyl ei gael gan Awdurdodau Lleol wrth fonitro a gorfodi'r Ardoll?

c. Beth yw'r bwriad a'r amserlen o ran sefydlu trefn drwyddedu ar gyfer llety gwyliau? Beth fydd y goblygiadau ar Gyngor Gwynedd o unrhyw drefn drwyddedu?

d. Adnoddau: Yn ogystal â chostau ymgynghori ac adrodd blynyddol ar y defnydd o'r Ardoll, mae Cyngor Gwynedd yn amlygu y bydd costau nad ydynt wedi eu cynnwys yn y Memorandwm Esboniadol o ran:

  a. Gweinyddu cronfeydd a ddaw i'r Ardal yn sgil unrhyw Ardoll;
  b. Costau gweinyddu unrhyw bartneriaeth fydd yn gyfrifol am argymell blaenoriaethau i gyllido prosiectau i gefnogi'r economi ymweld yn yr ardal;
  c. Costau cyfathrebu a marchnata'r buddion a'r buddsoddiadau fydd yn cael eu gwneud yn yr ardal yn sgil yr Ardoll.

3. **A oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn debygol o ddeillio o'r Bil?**
   Mae Cyngor Gwynedd wedi cynnal 2 sesiwn drafod gyda busnesau lleol yn ystod 2024 i drafod y potensial o fabwysiadu Ardoll yn lleol. Mae nifer wedi lleisio pryder am sgil-effeithiau negyddol all godi o ganlyniad i sefydlu Ardoll ar y sector twristiaeth yn gyffredinol – yn enwedig yn dilyn y Rheol 182 diwrnod, Erthygl 4, Covid-19 a'r argyfwng costau byw.
   Bydd cyfathrebu yn hanfodol o ran yr Ardoll a chael negeseuon clir am bwrpas yr Ardoll a sut y bwriedir ei fuddsoddi yn lleol er budd cymunedau, busnesau a'r amgylchedd. Rhaid i unrhyw drefniadau cofrestru a gweinyddu Ardoll fod mor syml a chymesur a phosib heb greu baich gweinyddol ychwanegol sylweddol ar y sector.

4. **Beth yw eich barn am asesiad Llywodraeth Cymru o effeithiau ariannol ac effeithiau eraill y Bil? (fel y'u nodir yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol)**
   Mae asesiadau cynhwysfawr wedi eu darparu ar gyfer effeithiau'r bil.
   Mae gan Cyngor Gwynedd bryder o ran y costau gweinyddol uchel ar gyfer yr Ardoll – yn enwedig os na fydd niferoedd uchel o Awdurdodau Lleol yn ei mabwysiadu. Yn yr achos yma fe allai Ardoll gostio mwy i'w gweithredu na'r adnoddau fydd yn cael eu derbyn i'w buddsoddi mewn ardal. A ddylid gosod isafswm o Awdurdodau Lleol sydd angen ymrwymo i'r Ardoll cyn bwrw ati i'w sefydlu?
   A oes modd amrywio'r costau sefydlu a gweinyddu pro-rata i gyd-fynd efo'r niferoedd o Awdurdodau Lleol a Darparwyr Llety Ymwelwyr? Gallai hyn wneud y broses yn fwy fforddiadwy.
   Yn ogystal â chostau ymgynghori ac adrodd blynyddol ar y defnydd o'r Ardoll, mae Cyngor Gwynedd yn amlygu y bydd costau ychwanegol nad ydynt wedi eu cynnwys yn y Memorandwm Esboniadol o ran:

   a. Gweinyddu cronfeydd a ddaw i'r Ardal yn sgil unrhyw Ardoll;
   b. Costau gweinyddu unrhyw bartneriaeth fydd yn gyfrifol am argymell blaenoriaethau i gyllido prosiectau i gefnogi'r economi ymweld yn yr ardal;
   c. Costau cyfathrebu a marchnata'r buddion a'r buddsoddiadau fydd yn cael eu gwneud yn yr ardal yn sgil yr ardoll.

5. **Beth yw eich barn am y cydbwysedd sydd wedi'i daro rhwng y wybodaeth sydd ar wyneb y Bil a'r hyn sydd wedi'i adael ar gyfer is-ddeddfwriaeth? A yw'r pwerau i**

**Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth yn briodol? (fel y nodir yn Rhan 1: Pennod 5 o'r Memorandwm Esboniadol).**
Credir bod y pwerau ar gyfer is-ddeddfwriaeth yn briodol – ond dylid sicrhau bod Awdurdodau Lleol hefyd yn cael eu ymgynghori gydag hwy ar unrhyw newidiadau neu is-ddeddfwriaeth fydd yn effeithio ar eu cyfrifoldebau neu incwm a chostau ychwanegol posib allai ddeillio o'r Ardoll.

6. **A oes gennych unrhyw farn am faterion sy'n gysylltiedig ag ansawdd y ddeddfwriaeth?**
   Mae un cyfeiriad yn y ddeddfwriaeth at Yr Alban – cymerir mai camgymeriad ydi hwn ac y dylid cyfeirio at 'Gymru' yn y rhan yma.
   30 (2) Ond caniateir i unrhyw beth y mae'n ofynnol ei wneud neu y caniateir ei wneud gan bob partner gael ei wneud yn lle hynny gan unrhyw un neu ragor ohonynt; ac os yw prif fan busnes y bartneriaeth yn yr **Alban**, caniateir hefyd iddo gael ei wneud gan unrhyw berson arall a awdurdodir gan y bartneriaeth.

7. **Ar 26 Tachwedd, ysgrifennodd Ysgrifennydd y Cabinet at y Pwyllgor Cyllid gyda rhai darpariaethau cofrestru a gorfodi dangosol ychwanegol y mae'n bwriadu eu cyflwyno yng Nghyfnod 2 y broses ddeddfwriaethol. A oes gennych chi unrhyw farn ar y darpariaethau cofrestru a gorfodi ychwanegol dangosol y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu cyflwyno yng Nghyfnod 2?**
   Mae Cyngor Gwynedd yn croesawu'r eglurder pellach o ran y ddarpariaeth gofrestru a gorfodi sydd wedi eu cynnwys yn y datganiad o fwriad polisi. Mae'r Cyngor yn teimlo bod yr wybodaeth yn glir ac yn deg ac yn croesawu'r cyfle i Ddarparwyr Llety Ymwelwyr fedru herio cosbau mewn rhai amgylchiadau.

8. **A hoffech nodi unrhyw faterion eraill ynghylch y Bil neu'r Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n cyd-fynd ag ef, neu unrhyw faterion cysylltiedig?**
   Mae Cyngor Gwynedd yn galw ar Lywodraeth Cymru i barhau i gyllido buddsoddiadau isadeiledd cyrchfan a chanol tref yn ogystal â marchnata i'r dyfodol a pheidio disodli'r cyllidebau hyn os y daw Ardoll i rym mewn ardal.

   Mae Cyngor Gwynedd hefyd yn ail-adrodd y pwyntiau sydd eisoes wedi eu nodi yn yr ymateb hwn, sef:

   a. Pa gefnogaeth fydd Awdurdod Cyllid Cymru yn disgwyl ei gael gan Awdurdodau Lleol wrth gofrestru, monitro a gorfodi'r drefn gofrestru?
   b. Pa gefnogaeth fydd Awdurdod Cyllid Cymru yn disgwyl ei gael gan Awdurdodau Lleol wrth fonitro a gorfodi'r Ardoll?
   c. Beth yw'r bwriad a'r amserlen o ran sefydlu trefn drwyddedu ar gyfer llety gwyliau? Beth fydd y goblygiadau ar Gyngor Gwynedd o unrhyw drefn drwyddedu?
   d. Adnoddau: Yn ogystal â chostau ymgynghori ac adrodd blynyddol ar y defnydd o'r Ardoll, mae Cyngor Gwynedd yn amlygu y bydd costau nad ydynt wedi eu cynnwys yn y Memorandwm Esboniadol o ran:
      a. Gweinyddu cronfeydd a ddaw i'r Ardal yn sgil unrhyw Ardoll;

b. Costau gweinyddu unrhyw bartneriaeth fydd yn gyfrifol am argymell blaenoriaethau i gyllido prosiectau i gefnogi'r economi ymweld yn yr ardal;

c. Costau cyfathrebu a marchnata'r buddion a'r buddsoddiadau fydd yn cael eu gwneud yn yr ardal yn sgil yr ardoll.

e. Mae Cyngor Gwynedd yn galw ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd i ystyried os yw'n briodol codi ardoll ymweld ar blant a phobl ifanc o dan 16 oed.